Neanderthal

Roedd y **Neanderthal** (neu'r *Homo neanderthalensis* neu *Homo sapiens neanderthalensis*) yn rhywogaeth o'r genws *Homo neanderthalensis* a oedd yn byw yn Ewrop a rhannau o orllewin Asia.[2] Ymddangosodd yr olion proto-Neanderthalaidd cyntaf yn Ewrop mor gynnar â 430,000 o flynyddoedd yn ôl. Ceir tystiolaeth eu bont yn defnyddio tân 300,000 cyn y presennol (CP), fel ag yr oedd y rhywogaethau eraill a oedd yn byw yr adeg honno: homo erectus a chyndadau Homo sapiens.[3] Erbyn 130,000 o flynyddoedd yn ôl roedd nodweddion Neanderthalaidd cyflawn wedi ymddangos. Daeth y rhywogaeth i ben rhwng 41,000 a 39,000 o flynyddoedd yn ôl.

Maent wedi gadael llawer ar eu hôl gan gynnwys esgyrn ac offer llaw a'u DNA.

Mae ymchwil genetig a wnaethpwyd yn 2010 yn awgrymu fod bodau dynol a'r Neanderthal yn rhyng-bridio rhwng 80,000 a 50,000 o flynyddoedd yn ôl yn y Dwyrain Canol. O ganlyniad mae gan fodau dynol Ewrasiaidd rhwng 1% a 4% mwy o DNA Neanderthalaidd nag Affricanwyr Is-Sahara.[4] Roedd y Neanderthal yn perthyn yn agos i fodau dynol modern, gyda gwahaniaeth yn eu DNA o ddim ond 0.12%. Ond nid oeddent yn cydweithio gyda'i gilydd cymaint a Homo Erectus oherwydd eu diffyg datblygiad iaith, nid oeddent mor gymdeithasol, ac nid oeddent mor flaenllaw eu technoleg. Y ffactorau hyn, mae'n debyg, sy'n egluro pam y bu i'r Neanderthal ddifodi ac i Homo Erectus barhau.

Yn y 2010au, mewn ogof ym Mynyddoedd Altai, cafwyd hyd i DNA o fewn asgwrn un o'i thrigolion, merch 13 oed, a drigai yno tua 50,000 o flynyddoedd cyn y presennol CyP. Hyd at 40,000 CP roedd y Neanderthal i'w weld drwy orllewin Ewrop a'r Denisovan drwy ddwyrain Ewrop, ond mewn rhai llefydd roeddent yn cyd-fyw. Profodd y DNA fod y tad yn Denisovan a'r fam yn Neanderthal.[5] Oherwydd y dystiolaeth hon, mae'r hyn y gredwyd cyn 2010 - y Theori Amnewid (*Replacement Theory*) - bellach yn farw.

Yng Nghymru

Prif erthygl: Ogof Bontnewydd

Mae Ogof Bontnewydd yng nghymuned Cefnmeiriadog yn Sir Ddinbych yn adnabyddus fel y man lle darganfuwyd y gweddillion cynharaf o fodau dynol ar ddaear Cymru gyda un dant yn mynd nôl tua 225,000 o flynyddoedd. Dim ond un man

Neanderthal

Amrediad amseryddol: Pleistocene Canol–Pleistocene Hwyr 0.25–0.028 Miliwn o fl. CP

Pre	Є	O	S	D	C	P	T	J	K	PgN

Penglog Neanderthal yn La Chapelle-aux-Saints

Dosbarthiad gwyddonol

Teyrnas:	Animalia
Ffylwm:	Chordata
Dosbarth:	Mammalia
Urdd:	Primates
Teulu:	Hominidae
Genws:	*Homo*
Rhywogaeth:	***H. neanderthalensis***

Enw deuenwol

Homo neanderthalensis

William King, 1864



Siart 'Stringer' o esblygiad sawl rhywogaeth o'r genws *Homo* dros ddwy filiwn o flynyddoedd cyn y presennol (CP). Mae'r cysyniad "Allan o Affrica" i'w weld ar frig y siart.

Llun gan arlunydd cyfrifiadurol.

arall



Ardal lle gwelwyd *Homo neanderthalensis*.

Cyfystyron

*Homo mousteriensis*Homo sapiens neanderthalensis
Palaeoanthropus neanderthalensis[1]

drwy wledydd Prydain sydd ag olion dyn mor gynnar a hyn, sef Eartham (Sussex).[6][7] Mae'r olion a ganfuwyd yn Ogof Bontnewydd yn perthyn i Hen Oes y Cerrig (neu Paleolithig). Cafwyd hyd i 19 dant yn perthyn i blant ieuanc ac oedolion: un bachgen 8 a hanner oed, un ferch 9 oed bachgen 11 oed, bachgen arall 11-16 oed ac oedolyn. Gellir dehongli'r gweddillion mewn modd wahanol ac fel uchafswm mae'n bosibl fod y niferoedd cymaint a 9 plentyn a 7 oedolyn. Dyma'r fan mwyaf gogleddol, drwy Ewrop, y cafwyd hyd i olion Neanderthaliaid.

Gweler hefyd

- Shanidar - ogof ym mynyddoedd Zagros yng ngogledd Irac lle cafwyd hyd i ysgerbydau pobl Neanderthal

- Ogofâu Altamira
- Diwylliant Aurignac
- Dyn Cro-Magnon
- Hen Oes y Cerrig yng Nghymru
- Ogofâu Cae Gwyn a Ffynnon Beuno
- Ogof Denisova, Siberia
- Ogofâu Lascaux

Cyfeiriadau

1. Bibliography of Fossil Vertebrates 1954-1958 - C.L. Camp, H.J. Allison, and R.H. Nichols - Google Books (https://books.google.com/books?id=mR_cxcxO8h8C&pg=PA556&lpg=PA556&dq=Palaeoanthropus+neanderthalensis&source=bl&ots=wsgpR8oudS&sig=3TDe6QN_tlrnqVz10HK2s8Ls9Ho&hl=en&sa=X&ei=cnTtUrWtOqWMyQHWg4DgCg&ved=0CHwQ6AEwCw#v=onepage&q=Palaeoanthropus%20neanderthalensis&f=false). Books.google.ca. Adalwyd 2014-05-24.
2. Hublin, J. J. (2009). "The origin of Neandertals" (http://www.pubmedcentral.nih.gov/articlerender.fcgi?tool=pmcentrez&artid=2752594). *Proceedings of the National Academy of Sciences* **106** (38): 16022–7. Bibcode 2009PNAS..10616022H (http://adsabs.harvard.edu/abs/2009PNAS..10616022H). doi:10.1073/pnas.0904119106 (https://dx.doi.org/10.1073%2Fpnas.0904119106). JSTOR 40485013 (https://www.jstor.org/stable/40485013). PMC 2752594 (https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2752594/?tool=pmcentrez). PMID 19805257 (https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/19805257). http://www.pubmedcentral.nih.gov/articlerender.fcgi?tool=pmcentrez&artid=2752594.
3. *Sapiens: A Brief History of Humankind* gan Yuval Noah Harari; Penguin (2011); t. 13.
4. http://news.bbc.co.uk/2/hi/science/nature/8660940.stm *A Draft Sequence of the Neandertal Genome*
5. Gwefan y BBC; (https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-45271644) adalwyd 23 Awst 2018.
6. *The Archaeology of Clwyd*, Cyngor Sir Clwyd 1991 tudalen 32
7. Hanes Cymru gan John Davies, Cyhoeddwr: Penguin, 1990, ISBN 0-14-012570-1; tudalen 3

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Neanderthal&oldid=10196926"

Newidiwyd y dudalen hon ddiwethaf ar 20 Ebrill 2020, am 16:15.

Mae testun y dudalen ar gael dan drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike; gall fod telerau ychwanegol perthnasol. Gweler Telerau Defnyddio'r Drwydded am fanylion pellach.